Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru

Adroddiad y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol

Awst 2007



G/362/07-08
ISBN 978 0 7504 4412 5

Hydref
CMK-22-10-078

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2007

Rhagair

Dangosodd adroddiad 'Up in Flames' Chwefror 2003 i ba raddau yr oedd tanau bwriadol yn broblem yng Nghymru a'u heffaith drychinebus ar ein cymunedau a'r economi.

Roedd yr adroddiad yn cynnig argymhellion a bu'n ffocws i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, Heddluoedd a rhanddeiliaid eraill i hybu dull o weithio mewn partneriaeth wrth leihau'r achosion o danau bwriadol ar draws Cymru.

Darparwyd cryn dipyn o arian ac adnoddau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y blynyddoedd diwethaf i gefnogi'r prosiectau a'r mentrau a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd gan ymarferwyr. Nid oes gan un asiantaeth fonopoli ar wybodaeth ac mae manteision gweithio'n agos mewn partneriaeth wedi cael eu profi'n effeithiol ac yn gynaliadwy. Yn wir, ym maes lleihau tanau bwriadol, mae'r gwasanaeth Tân a'r Heddlu wedi codi gweithio mewn partneriaeth i lefel uwch drwy ddarparu Swyddogion a staff ategol penodedig ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem.

Gwelir manteision y buddsoddiad yn glir yn y lleihad o bron i 30% yn y tanau a gynheuwyd yn fwriadol y bu'n rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub Cymru fynd iddynt dros y tair blynedd ddiwethaf. Mewn termau ariannol, mae'r gostyngiad hwn yn golygu arbediad o bron i £23M*. Fodd bynnag, mae'r broblem yn parhau i gostio dros £56m i Gymru yn ystod 2006-07, ac mae'r gwir gost lawer yn uwch gan fod y costau hyn yn seiliedig ar gyfrifiadau sy'n dosrannu cost tybiedig i ddigwyddiad pa mor ddifrifol bynnag ydyw. Er enghraifft, os ceir tân mewn ysgol caiff cost o £4,500 ei nodi, boed y tân mewn bin papur bychan neu os caiff ysgol gyfan ei cholli. Yn anffodus, cafodd sawl ysgol eu colli yn sgil tanau bwriadol yn 2006 a bydd yn costio sawl miliwn i ni adeiladu rhai newydd yn eu lle.

Sefydlwyd Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol Cymru Gyfan (y Cyd-Grŵp) o dan nawdd Pwyllgor Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gorchwyl y Cyd-Grŵp hwn oedd cynhyrchu 'Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru' a fydd yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan 'Up in Flames' ac a fydd yn ffocws i wneuthurwyr polisi, ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill ym maes lleihau llosgi bwriadol.

Gall pob un o'r sefydliadau a'r unigolion a fu'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r broblem ymfalchïo yn ein gwaith hyd yma o safbwynt lleihau nifer y tanau bwriadol yng Nghymru. Mae'r lleihad yn ganlyniad i'r gwaith partneriaeth ac yn arbennig yr agendâu Tân ac Achub a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Ers i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gael ei ddatganoli ym mis Tachwedd 2004, mae gweithio'n aml-asiantaethol ac mewn partneriaeth wedi bod yn hanfodol i ddatblygu polisïau a mentrau sy'n cyfrannu at fodloni amcanion Tân ac Achub ac amcanion ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ceir tystiolaeth o hyn yng nghefnogaeth sefydliadau fel y Cyd-Grŵp, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân a'r Pwyllgor Diogelwch Cymunedol.

* Ffynhonnell: Cyhoeddiad y Swyddfa Gartref 'The Economic Cost of Fire'

Fodd bynnag, er i lawer gael ei gyflawni, mae llawer eto i'w wneud. Dyna pam rwyf yn rhoi fy sêl bendith ar y strategaeth hon, a fydd yn sail i fynd â'r gwaith o leihau tanau bwriadol yn ei flaen. Bydd angen i'r ddogfen ei hun esblygu wrth i'r broblem ei hun esblygu.

Fodd bynnag, â'r ddogfen hon, ymrwymiad aml-asiantaethol, trefniadau gweithio mewn partneriaeth a lefelau cyllid priodol, mae gennym bellach yr offer i leihau ymhellach y broblem yng Nghymru.

Dr Brian Gibbons

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	5
Methodoleg	6
Cydweithio	7
Cost Economaidd Tanau Bwriadol	8
Gweithrediad	8
Rheoli Perfformiad	9
Gweithredu ar gyfer Newid	
1. Ehangder y Broblem	10
2. Yr Amgylchedd	14
3. Plant, Pobl Ifanc ac Addysg	21
Ymgysylltu ac ymyrryd	22
Atal Troseddau Ieuenctid/Aildroseddu	25
Addysg	26
4. Diogelu'r Cyhoedd	29
5. Taenellwyr	35
Atodiad A - 'Up in Flames' Argymhellion/Hynt y Gwaith	39
Atodiad B - Cynrychiolwyr y Rhanddeiliaid	43
Atodiad C - Manylion cost economaidd tanau bwriadol …	
• Fesul Awdurdod Unedol	46
• Ardal Tân ac Achub Gogledd Cymru	47
• Ardal Tân ac Achub De Cymru	48
• Ardal Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	49
• I Gymru	50
• Tanau Glaswellt a Choedwigaeth	51
Atodiad D - Termau	52

Cyflwyniad

Dylid edrych ar y ddogfen strategol hon yng nghyd-destun ehangach cefnogi amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu cymunedau mwy diogel a datblygu cydlyniant cymdeithasol cryfach.

Un o themâu'r strategaeth yw cynaliadwyedd, o ran yr amgylchedd naturiol a'r un adeiledig. Caiff y ddwy egwyddor yma eu hategu ymhellach yng *'Nghynllun Gofodol Cymru'*, lle y mae'r angen i gefnogi cymunedau ac adeiladau cynaliadwy yn cael ei ailadrodd. Bydd y ddogfen Strategaeth hon yn cynnig cyfeiriad i unigolion, sefydliadau a chyrff eraill sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblem llosgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol yng Nghymru. Mae'n amlinellu'r broblem y mae ein cymunedau yn ei hwynebu, yn manylu ar achosion penodol y llosgi bwriadol a'r cynnau tanau'n fwriadol sy'n effeithio fwyaf ar ein cymunedau, ac mae'n cynnig canllaw eang ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori'n eang gyda'r prif sefydliadau a'r rhanddeiliaid a fydd yn gallu hybu'r gwaith o leihau llosgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol sy'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Gofynnwyd i Gyd-Grŵp Tanau Bwriadol Cymru (y Cyd-Grŵp), adrodd ar y broblem gan ymrwymo i gynnwys rhychwant eang o randdeiliaid wrth ddatblygu'r strategaeth a dilyn ethos y ddogfen *'Creu'r Cysylltiadau'*. Wrth gyhoeddi'r strategaeth hon mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflawni ei hymrwymiad a amlinellwyd yn *'Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2004'* ac yn dilyn argymhellion yr adroddiad *'Up in Flames'* a gyhoeddwyd yn 2003.

Wrth gynhyrchu'r strategaeth hon mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod graddfa ac effaith llosgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol yng Nghymru. Mae'r ystadegau a ddarparwyd gan Wasanaethau Tân ac Achub Cymru yn dangos mai'r gost i Gymru mewn termau economaidd yn unig yn 2006/2007 oedd **£56.3M***. Serch hynny, nid yw'r costau hyn bob amser yn cynrychioli'r gwir sefyllfa gan y gall un tân difrifol mewn ysgol gostio miliynau o bunnau. Rhif mynegiannol yw hwn yn unig ac nid yw'n dangos y gwir gost i gymunedau Cymru sy'n dioddef yn sgil colli adnodd pwysig fel ysgol. Mae'n anodd mesur effaith colli cyfleuster o'r math yma, gyda gwaith ysgol yn cael ei golli, deunyddiau dysgu'n cael eu dinistrio, tarfu ar addysg ac ar weithgareddau ar ôl ysgol fel addysg oedolion a chyfarfodydd cymunedol, y cyfan yn cael eu heffeithio'n andwyol wrth golli ased hanfodol i'r gymuned.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau nifer yr achosion o losgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y Strategaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio a chynnig canllaw i'r rheini sy'n ymgymryd â chynlluniau ar gyfer lleihau llosgi a thanau bwriadol yng Nghymru. Bydd y strategaeth yn sail i becyn cymorth y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cynlluniau a chynnig cyfeiriad ar gyfer gweithredu.

Mae disgwyl i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru chwarae rôl arweiniol wrth leihau nifer yr achosion o losgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol. Bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei adlewyrchu yn y *Cynlluniau Lleihau Risg* sy'n cael eu cyhoeddi ganddynt a bydd hynt y gwaith yn cael ei bwyso a'i fesur drwy fframwaith *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella* a fframwaith cysylltiedig ar gyfer mesur perfformiad.

---

* Ffynhonnell: Cyhoeddiad y Swyddfa Gartref 'The Economic Cost of Fire'

Methodoleg

Roedd methodoleg yr ymchwil yn sefydlu sail ymgynghorol cadarn ar gyfer llunio dogfen strategaeth. Os caiff pob elfen o'r strategaeth eu rhoi ar waith byddant yn cynorthwyo i greu cymunedau mwy diogel a byddant yn effeithio'n sylweddol ar nifer y tanau sy'n cael eu cynnau yn fwriadol, gan leihau eu heffaith ar yr economi.

Yr Astudiaeth Gwmpasu Gychwynnol

Cyfarfod y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol, Y Drenewydd, Powys
27 Ebrill 2006

Cyfarfu'r Cyd-Grŵp i bennu cyfeiriad strategol y prosiect a chytunwyd yn unfrydol y dylai'r ddogfen adeiladu ar y cyfeiriad a amlinellwyd gan yr adroddiad *'Up in Flames'*. Dylai'r ddogfen hefyd ystyried y papur sefyllfa a gyflwynwyd gan Mr Phil Coleman (Pennaeth Lleihau Risg Cymunedol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru) i Bwyllgor Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn manylu ar yr elfennau sydd angen sylw o hyd yn yr adroddiad *'Up in Flames'* (Atodiad A). Yn nhyb y Cyd-Grŵp byddai'r dogfennau yma'n gonglfaen i'r Ddogfen Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru.

Gan ddefnyddio setiau data a oedd yn gyffredin i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, penderfynodd y Cyd-Grŵp fod tanau bwriadol yn effeithio ar nifer o gyrff ac unigolion ac felly cydnabu'r angen i gynnwys ac ystyried barn cymaint â phosibl o randdeiliaid wrth lunio'r ddogfen.

Penderfynodd y Cyd-Grŵp yn y cyfarfod hwn hefyd beth fyddai prif feysydd y Strategaeth a nodwyd y cyrff cynrychioliadol. Y prif feysydd oedd:-

- Ehangder y Broblem
- Yr Amgylchedd
- Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Diogelu'r Cyhoedd
- Taenellwyr - lleihau cost tanau bwriadol a diogelu adeiladau cyhoeddus.

Cytunodd y Cyd-Grŵp mai'r ffordd orau o gynnwys barn y rhanddeiliaid i gyd fyddai trefnu cyfres o weithdai. Byddai'r rhain yn cael eu hwyluso yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Tân ac Achub Cymru ym Mhorth Caerdydd ar 19 ac 20 Gorffennaf 2006.

Cyfarfod Ffocws y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol
29 Mehefin yn Atal Tân Cymru

O dan Gadeiryddiaeth John Fitzjohn MBE, penderfynodd y Cyd-Grŵp gynnal cyfres o bum seminar hanner diwrnod o dan y prif feysydd a bennwyd yn barod. Trefnwyd strwythur i'r gweithdai a buont yn ystyried pwy i'w gwahodd.

Gweithdai'r Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol
19 a 20 Gorffennaf, Porth Caerdydd

Hwyluswyd pob gweithdy gan aelodau'r Cyd-Grŵp gan ddefnyddio patrwm cyffredin a luniwyd yn flaenorol i roi strwythur i bob gweithdy a hybu trafodaeth. Bu pob un o'r pum gweithdy yn trafod nifer o wahanol agweddau o fewn themau cyffredinol y gweithdy.

E.e. AMGYLCHEDDOL … Rheoli gwastraff, eiddo a safleoedd gwag, cerbydau a adawyd, cerbydau wedi eu llosgi, tanau glaswellt a choedwig, atal troseddu trwy ddylunio a sylindrau a daflwyd i ffwrdd.

Ceir manylion yr unigolion a gyfrannodd at y drafodaeth a'r gweithdai datrys problemau yn Atodiad B.

Cyfarfodydd y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol

Trafodwyd canfyddiadau'r gweithdai mewn nifer o gyfarfodydd o'r Cyd-Grŵp rhwng Gorffennaf a Medi 2006. Cytunwyd ar strwythur y ddogfen a defnyddiwyd templed cyffredin i bob maes pwnc o fewn yr adroddiad.

Cyflwynwyd y drafft gwreiddiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddydd Gwener 15 Medi 2006.

Cydweithio

Mae'r hyn a gyflawnwyd ym maes lleihau ac atal tanau bwriadol ers cyhoeddi adroddiad *'Up in Flames'* yn 2003 yn bennaf yn ganlyniad i weithio effeithiol mewn partneriaeth.

Tynnwyd sefydliadau, cymunedau ac unigolion at ei gilydd i weithio gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gan gydnabod y manteision i'r naill a'r llall o gydweithio.

Dangosodd profiad fod partneriaid yn elwa yn y ffyrdd canlynol:

- Rhannu syniadau, adnoddau a gwybodaeth wrth weithio tuag at nod neu amcan cyffredin
- Cyfle i elwa ar sgiliau pobl eraill
- Cefnogaeth y naill i'r llall er mwyn cynnal brwdfrydedd ac ymrwymiad
- Dysgu trwy weld pethau o safbwynt partneriaid
- Y gallu i sicrhau cyllid, sy'n gofyn am weithio mewn partneriaeth
- Ymgysylltu â rhannau o'r gymuned nad oedd gennych fawr i wneud â hwy o'r blaen nac ychwaith lawer o wybodaeth amdanynt.

Mae cydweithio effeithiol wedi galluogi rhanddeiliaid i ddatblygu strategaethau ac atebion sydd wedi arwain at lwyddiant. Dylid cydnabod bod cydweithio o'r fath yn ddull cadarnhaol ac adeiladol o weithio, y gellir ei ddefnyddio pan fo problemau ynghlwm â lleihau ac atal tanau bwriadol yn cael eu pennu.

Cost Economaidd Tanau Bwriadol

Ni ddylid amcangyfrif cost tanau bwriadol ar gymunedau Cymru yn rhy isel. Gan ddefnyddio'r costau fel y'u hamlinellwyd yng nghyhoeddiad *'The Economic Cost of Fire'* yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG), mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn crynhoi data ynghylch cost tanau bwriadol yn yr un modd.

Er mwyn mesur graddfa'r broblem yng Nghymru, mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub yn monitro amlder tanau bwriadol yn ofalus. Mae'r broses hon yn rhoi gwybodaeth sy'n cael ei defnyddio i dargedu cynlluniau atal tanau bwriadol.

Mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub a'u partneriaid wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o danau bwriadol yn y gymuned. Fodd bynnag, mae'r ffigurau isod yn dangos bod llawer ar ôl i'w wneud yng Nghymru o hyd:

	2003/04	*2004/05*	*2005/06*	*2006/07*
De Cymru	£49.7m	£36.6m	£32.8m	£35.2m
Canolbarth a Gorllewin Cymru	£18m	£14.2m	£12.6m	£13.2m
Gogledd Cymru	£11.4m	£7.0m	£7.9m	£7.9m
CYMRU	£79.1m	£57.7m	£53.3m	£56.3m

Cost Economaidd Tanau Bwriadol yng Nghymru 2003/04 - 2006/07

Cost Tanau Bwriadol, yn ôl y Math o Dân

Cymerwyd y costau a ddefnyddir yn y ddogfen hon o ddwy ffynhonnell. Cyhoeddiad y Swyddfa Gartref 'The Economic Cost of Fire: estimates for 2003' a gyhoeddwyd yn 2005 ar gyfer data 03/04 a 04/05 a chyhoeddiad Ebrill 2006 yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol 'The Economic Cost of Fire: estimates for 2004'. Ceir taenlenni manwl â data ar lefel Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a'r Awdurdodau Unedol yn Atodiad C.

Gweithredu

Mae'r Strategaeth yn cydnabod mai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru fydd yn bennaf gyfrifol am leihau nifer yr achosion o danau bwriadol. Bwriad Llywodraeth y Cynulliad, trwy adolygu'r ddogfen *Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru*, yw ailbwysleisio yr angen i'r Gwasanaethau Tân ac Achub arwain wrth leihau tanau bwriadol yng Nghymru. Bydd y gweithgaredd cadarnhaol yma'n cael ei gynnwys yn y ddogfen ganllaw *Cynllunio Lleihau Risg i'r Awdurdodau Tân ac Achub* a fydd yn cael ei chynhyrchu gan Lywodraeth y Cynulliad.

Serch hynny, nid strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yn unig ydyw hi gan ein bod yn cydnabod bod angen gweithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid o fewn ein cymunedau.

Gobeithia Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd y ddogfen hon yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer yr holl randdeiliaid allweddol sy'n ystyried mentrau a fydd yn mynd i'r afael â lleihau tanau bwriadol o fewn eu cymuned.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn bwriadu parhau i roi cefnogaeth ariannol i'r grwpiau rhanddeiliaid o fewn y gymuned ehangach sy'n ceisio ymgymryd â chynlluniau lleihau tanau bwriadol.

Bydd disgwyl o hyd i bob prosiect a chynllun a gefnogir ddarparu canlyniadau mesuradwy sy'n dangos effaith bositif ar y broblem. Bydd gwybodaeth a data amrywiol yn cael eu darparu ar gyfer gwerthuso prosiectau ac os gwelir bod llwyddiant yn deillio ohonynt, gall y prosiect neu'r fenter gael ei ddatblygu ymhellach a'i rannu fel arfer da ar draws Cymru.

Rheoli Perfformiad

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod manteision gweithio mewn Partneriaeth, yn ogystal â'r ffaith na all y gwasanaeth tân ac achub fynd i'r afael â lefel y tanau bwriadol ar ei ben ei hun.

Tra bod Atal Tân Cymru (Firebreak Wales) eisoes yn sicrhau bod ymgyrchoedd penodol yn targedu Cymru gyfan, nid oes neb yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n ymchwilio, yn pennu, yn archwilio na'n rhannu arferion da. Cydnabyddir bod arferion da ar waith ond nad ydynt yn cael eu gweithredu ar draws Cymru.

Er bod Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn edrych ar yr agenda gymdeithasol ehangach, ni wneir defnydd llawn o'r llwyddiant a'r blaengaredd a ddatblygwyd ers datganoli. Mae Cymru wedi colli ei chysylltiadau blaenorol â sefydliadau'r DU fel y Fforwm Rheoli Tanau Bwriadol a'r Ganolfan Genedlaethol Diogelwch Tân Cymunedol.

Argymhellion

Yn sgil datganoli mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub gyfle i dorri tir newydd. Fel un o'r grwpiau diogelwch tân cymunedol mwyaf hirsefydlog yng Nghymru, mae'r Cyd-Grŵp yn sylweddoli mai dim ond un agwedd ar waith diogelwch cymunedol yw lleihau tanau bwriadol ac y byddai'n elwa ar well cyfeiriad strategol.

Dylai Pwyllgor Diogelwch Cymunedol Cymru gymryd cyfrifoldeb dros reoli perfformiad o safbwynt lleihau tanau bwriadol yng Nghymru er mwyn cael:

- Proses ddadansoddol effeithiol.
- Rheoli perfformiad effeithiol.
- Adnabod a rhannu arferion da.
- Rheoli ffrydiau ariannu.

Er mwyn cyflawni hyn, dylai staff llawn amser fynd i'r afael â'r materion hyn. Dylid ystyried anfon aelodau o'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu ar secondiad i'r Pwyllgor Diogelwch Cymunedol â chefnogaeth weinyddol.

Gweithredu ar gyfer Newid

Ehangder y Broblem

Wrth ddatrys materion diogelwch cymunedol, mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn aml yn defnyddio model CDYA (Craffu, Dadansoddi, Ymateb ac Asesu). Mae rhan gyntaf y model hwnnw, craffu, yn golygu Cwmpasu maint y broblem. Os na all partneriaid ddadansoddi ehangder y broblem o danau bwriadol yng Nghymru na chraffu ar y sefyllfa, sut y gall ymarferwyr asesu a yw eu Hymatebion yn cael effaith ar y broblem honno?

Mae'r rhan hon o'r Strategaeth yn ymdrin ag:

- Adnabod yr ardaloedd lle y gwyddys bod problemau â thanau bwriadol a defnyddio ymyriadau aml-asiantaethol i fynd i'r afael â'r materion hynny.
- Systemau ac arferion cofnodi a manteision dull Cymru gyfan.
- Y gwahaniaeth rhwng ystadegau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac ystadegau'r Heddlu a sut y gellir defnyddio'r ystadegau hynny i roi gwell darlun i bob partner ynghylch graddau'r broblem o gynnau tanau'n fwriadol.

Gweithredu

Adnabod yr ardaloedd lle y gwyddys bod problemau â thanau bwriadol a darparu ymyriadau aml-asiantaethol wedi eu targedu.

Sail Resymegol

Dylai partneriaid allweddol ym maes diogelwch cymunedol allu pennu problemau sy'n dod i'r amlwg, a rhoi cynlluniau ar waith er mwyn eu hatal.

Nodau

Datblygu systemau dadansoddi a rheoli gwybodaeth fel y gellir pennu yn gynnar unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg, ar sail data partneriaeth.

Darparu ymyriadau aml-asiantaethol, â chymorth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn datrys y problemau hyn sy'n dod i'r amlwg, sy'n seiliedig ar fodel CDYA (Craffu, Dadansoddi, Ymateb ac Asesu), gan ddefnyddio dull cyfannol.

Opsiynau Tactegol

- Darparu data daearyddol perthnasol yn rheolaidd er mwyn gweld y problemau yn ymwneud â llosgi a thân bwriadol sy'n dod i'r amlwg, yn seiliedig ar ddata partneriaeth.
- Mabwysiadu'r defnydd o Grwpiau ledled Cymru, fel fforwm i godi materion sy'n dod i'r amlwg (ee Grwpiau Cydweithredu Gogledd Cymru).
- Cyswllt agos rhwng Timau Lleihau Tanau Bwriadol a Dadansoddwyr er mwyn codi materion sy'n amlygu eu hunain o fewm fframwaith Tasgau'r Heddlu a chyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Codi ymwybyddiaeth drwy gyflwyno ystadegau partneriaeth mewn cyfarfodydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Ymyriad cynnar gan ddefnyddio adnoddau partneriaeth er mwyn lleihau nifer y tanau bwriadol a lleihau'r gost economaidd i gymdeithas.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gwneud defnydd effeithiol o'r holl ystadegau sydd ar gael er mwyn lleihau tanau bwriadol.

Cydnabod problem tanau bwriadol a phob partner yn cymryd camau i fynd i'r afael â hi yng Nghymru.

Gweithredu

Partneriaid i grynhoi data mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n bosibl i ddadansoddi tanau bwriadol, y troseddau arwyddol a'i ffactorau risg.

Sail Resymegol

Mae partneriaid yn defnyddio gwahanol systemau cofnodi ar gyfer eu data. Byddai systemau cyffredin yn golygu rhagor o gysondeb o safbwynt cofnodi a dadansoddi data.

Nodau

Agwedd gyffredin at y systemau a ddefnyddir ar gyfer cofnodi data ar draws Cymru a chan y partneriaid i gyd.

Opsiynau Tactegol

- Ceisio agwedd ganolog at y materion yma â chymorth gwaith partneriaeth trawsffiniol wedi'i gydgysylltu.
- Gwneud yn siŵr fod yr wybodaeth a gedwir ar Becyn Cymorth Llanw Brys y Gwasanaeth Tân (FSEC) ac ar systemau eraill yn cael ei deall a'i rhannu.
- Bydd y Model Gwybodaeth Cenedlaethol (NIM) yn cael ei ddefnyddio i alluogi pob asiantaeth o fewn Partneriaethau Datblygu Cymunedol i gyfrannu gwybodaeth, drwy gysylltiadau partneriaeth effeithiol. Dylai hon fod yn broses ddwy ffordd.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Pob partner yn gallu rhannu gwybodaeth mewn amser real.

Arferion Cofnodi Cyffredin ar draws Cymru.

Lleihad yn nifer y tanau bwriadol a throseddau'n ymwneud â llosgi.

Tystiolaeth o agwedd partneriaeth ar y cyd i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â thanau bwriadol.

Gweithredu

Cydnabod y gwahaniaethau rhwng ystadegau'r Heddlu a rhai'r Gwasanaeth Tân ac Achub a gwneud yn siŵr nad yw'r gwahaniaethau hynny yn rhwystro'r ymdrechion i leihau tanau bwriadol yng Nghymru.

Yn y tymor hirach sicrhau cysondeb rhwng y ffigyrau fel y'u cofnodwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Heddlu, mewn perthynas â thanau bwriadol a dealltwriaeth o'r gwahaniaethau yn y ffigyrau hynny.

Sail Resymegol

Dim ond trwy ddeall gwir ehangder y broblem o danau bwriadol dros Gymru y gellir pennu graddfa a lleoliad y broblem ac os yw'r ystadegau'n amrywio yna dylid egluo'r amrywiad yna yn glir.

Nodau

Derbyn nad yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu yn cofnodi'r un data.

Y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Heddlu i sicrhau bod y cofnodion cychwynnol ynghylch tanau bwriadol yn cael eu safoni.

Yr Heddlu i sicrhau cofnodi achosion o "Dân bwriadol" a "Tân nad yw'n achos troseddol" fel y gellir ystyried yr holl ystadegau perthnasol.

Mabwysiadu gweithdrefnau adrodd Cofnod Data Tân (FDR) sy'n cael eu hadolygu'n genedlaethol ar hyn o bryd.

Pob Pwyllgor Diogelwch Cymunedol i gynnal archwiliad o'r wybodaeth bresennol sydd ag unrhyw berthnasedd i leihau tanau bwriadol.

Opsiynau Tactegol

- Cronfa ddata ganolog ar draws Cymru yn cynnwys data partneriaeth fel y gellir adnabod ardaloedd lle y ceir problem â thanau bwriadol a chaniatáu dadansoddiad cymharol ar draws Cymru.
- Timau Lleihau Tanau Bwriadol i gael golwg ar ddata gan asiantaethau partner a gweithredu ymyriadau aml-asiantaethol gan ddefnyddio model CDYA.

- Cyflwyno protocolau rhwng y Gwasanethau Tân ac Achub a'r Gwasanaethau Heddlu i sicrhau cofnodi cyson.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Os oes yna unrhyw wahaniaethau mewn ystadegau asiantaeth, byddant yn cael eu hegluro'n glir.

Persbectif Cymreig amlwg ar leoliad ardaloedd lle ceir problem â thanau bwriadol a'r mathau o drosedd arwyddol a digwyddiadau eraill a all helpu i bennu'r ardaloedd hynny.

Gweithredu

Hybu'r cysyniad o ddull aml-asiantaethol o leihau tanau bwriadol.

Sail Resymegol

Mae tri model o Dimau Lleihau Tanau Bwriadol yn cael eu treialu yng Nghymru. Mae'r cynlluniau peilot tair blynedd ar waith dros dair ardal ddaearyddol cwbl wahanol a disgwylir iddynt ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2007.

Nodau

Parhau â'r Timau Lleihau Tanau Bwriadol ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Heddlu yng Nghymru.

Datblygu ymhellach gynlluniau lleihau tanau bwriadol aml-asiantaethol llwyddiannus.

Opsiynau Tactegol

- Defnyddio'r model Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a ddewiswyd yn dilyn gwerthusiad i ddatblygu ymhellach gynlluniau lleihau tanau bwriadol a sicrhau bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu rhannu/eu cyflwyno ledled Cymru.
- Ystyried cael cydlynydd Cymru ar gyfer y Timau Lleihau Tanau Bwriadol er mwyn sicrhau cysondeb, rheoli'r gwaith o'u cyflwyno a datblygu arferion da.
- Gwneud yn siŵr bod Wardeniaid Tanau Bwriadol Busnes yn parhau i fod yn elfennau hanfodol o bob Tîm. Dylai cydlynydd Cymru sicrhau cysondeb, rheoli'r gwaith o'u cyflwyno a datblygu arferion da.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Dull aml-asiantaethol effeithiol sy'n mynd i'r afael â'r materion sy'n dod i'r amlwg ar draws Cymru o ran tanau bwriadol.

Yr Amgylchedd

Mae cynnau tân yn fwriadol yn dal i gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a'n cymunedau.

Mae effaith cynnau tân yn fwriadol yn tanseilio hyder cymdeithasol ac economaidd ac yn tynnu ar adnoddau y gellid eu defnyddio'n fwy effeithiol yn rhywle arall.

Dylai cynnal a gwella safon ac ymddangosiad yr amgylchedd rydym yn byw ynddo lywio a dylanwadu ar fudd-ddeiliaid yn eu gwaith o adeiladu cymunedau mwy diogel, lleihau ofn o droseddu a hybu hyder yn y gymuned.

Gweithredu

Lleihau nifer y tanau glaswellt a choedwig sy'n cael eu cynnau'n fwriadol.

Sail Resymegol

Ychydig o arwyddion o leihad a welwyd mewn tanau glaswellt a choedwig yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae'r tanau hynny yn aml yn cael eu cynnau'n fwriadol. Mae'r tanau'n achosi colledion o safbwynt yr amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt a hefyd ddifrod i ddau o ddiwydiannau mwyaf Cymru, amaethyddiaeth a thwristiaeth; maent hefyd yn niweidiol i fewnfuddsoddiad i Gymru ac mae ganddynt oblygiadau sylweddol o safbwynt adnoddau i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, a phob sector a chymuned.

Nodau

Newid agwedd y gymuned tuag at gynnau tanau glaswellt a choedwig yn fwriadol.

Hybu Addysg gydol oes yn ein cymunedau er mwyn addysgu am y problemau a achosir gan y mater hwn.

Cymryd agwedd aml-asiantaethol at fynd i'r afael â'r mater hwn.

Opsiynau Tactegol

- Y Cwricwlwm Cenedlaethol i gynnwys "gofalu am yr amgylchedd". Mae angen mynd â'r plant allan o'r dosbarth i'r amgylchedd lleol a'u haddysgu am y pwnc.
- Mae sawl cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r pwnc hy Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgol Cymru Gyfan, Crucial Crew, Parth Diogelwch Ysgolion Coedwig.
- Rhoi cynlluniau ar waith sy'n annog perchnogaeth ac ymdeimlad o falchder mewn cymunedau o safbwynt eu hamgylchedd nhw eu hunain.
- Dylai partneriaethau allweddol gydweithio i roi neges gyson ar danau glaswellt a choedwig.
- Rhaid cefnogi grwpiau ieuenctid i gynnig gweithgareddau a fydd yn denu sylw bobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol a chyflwyno neges ar ddefnyddio tân yn gyfrifol.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Lleihad yn nifer y tanau glaswellt a choedwig a gynheuwyd yn fwriadol a chymunedau nad ydynt yn goddef gweithgareddau cynnau tân yn eu cymdogaeth.

Bydd gan blant a phobl ifanc well dealltwriaeth o'u hamgylchedd lleol a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig iddynt.

Gofal am yr amgylchedd yn cael ei ddysgu mewn ysgolion fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Gweithredu

Lleihau Llosgi Cerbydau yn Fwriadol.

Sail Resymegol

Gwelwyd lleihad yn nifer y tanau bwriadol mewn ceir dros y blynyddoedd diwethaf drwy ymdrechion partneriaethau ledled Cymru. Mae'r mater yn dal i fod yn broblem sylweddol.

Cerbydau a adawyd, ceir a rennir a cherbydau wedi eu dwyn yw prif dargedau'r llosgwyr ynghyd â cherbydau a losgir ar gyfer twyll yswiriant. Mae cerbydau wedi eu llosgi mewn cymuned yn cynyddu pryderon pobl ynghylch trosedd, yn cael effaith andwyol ar yr ardal ac yn creu nifer o fygythiadau gwenwynig a pheryglus i'r Gwasanaethau Brys, y Gymuned a'r Amgylchedd.

Nodau

Sicrhau bod cerbydau a adawyd neu nad oes neb eu heisiau yn cael eu symud yn brydlon.

Rhannu arferion da o ran symud, storio a gwaredu cerbydau a adawyd ar draws awdurdodau lleol.

Lleihau trosedd cerbydau.

Pwyllgorau Diogelwch Cymunedol i wneud defnydd effeithiol o'u Pwerau Statudol i atafaelu cerbydau.

Opsiynau Tactegol

- Targedu ardaloedd lle y gwyddys bod problemau o safbwynt cerbydau yn cael eu dwyn neu'r ardaloedd hynny a ddefnyddir ar gyfer gadael a llosgi cerbydau drwy ddefnyddio dull aml-asiantaethol o ddatrys y broblem.
- Awdurdodau lleol i weithredu trefniadau adfer, storio a gwaredu cerbydau yn seiliedig ar arferion da.
- Awdurdodau lleol i ddefnyddio'n llwyr eu pwerau i ddelio â cherbydau a adawyd fel "gwastraff peryglus", gyda'r nod o'u symud yn syth, canfod y perchnogion ac adennill costau.

- Darparu hyfforddiant aml-asiantaethol i awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu ar ymchwilio a'r pwerau sy'n gysylltiedig â cherbydau a adawyd.
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i weithio gyda phartneriaid allweddol.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Llai o gerbydau wedi eu dwyn, llai o gerbydau wedi eu gadael, lleihad yn nifer y tanau cerbyd bwriadol a'r peryglon a gyflwynir gan hyn i gymunedau a'r amgylchedd ynghyd â lleihad mewn ofn troseddau.

Gweithredu

Gwella Arferion Rheoli Gwastraff.

Sail Resymegol

Mae arferion gwael o ran rheoli gwastraff yn cynnig tanwydd i'r rhai sydd am gynnau tân yn fwriadol ac yn difrodi'r amgylchedd.

Nodau

Hybu arferion da o safbwynt storio gwastraff yn ddiogel ac yn sicr.

Cynhyrchwyr gwastraff i dderbyn cyfrifoldeb am ei waredu yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Addysgu cymunedau, busnesau a chynhyrchwyr gwastraff ynghylch peryglon storio gwastraff yn amhriodol.

Addysgu'r gymuned ynghylch rheoli gwastaff a'r effaith i'r amgylchedd sy'n deillio o reoli gwastraff yn wael.

Opsiynau Tactegol

- Cyrff statudol i ddefnyddio'u pwerau rheoli gwastraff yn llawn.
- Cyrff statudol i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth berthnasol i osod amodau ar gynhyrchwyr gwastraff i gadw gwastraff ac yna'i roi i gael ei gasglu.
- Cyrff statudol i rannu Arferion Gorau o safbwynt rheoli gwastraff gyda'i gilydd.
- Cyrff statudol i gynnwys storio gwastraff yn ddiogel a sicr o fewn canllawiau cynllunio a llunio canllawiau cynllunio atodol ar y pwnc hwn.
- Addysgu cynhyrchwyr gwastraff am eu hatebolrwydd a'u cyfrifoldeb.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu Deddf Diogelu'r Amgylchedd a'r Ddeddf Cymdogaethau Glân.
- Cyrff statudol i godi tâl am storio gwastraff.
- Dull aml-asiantaethol o addysgu'r cyhoedd am beryglon rheoli gwastraff yn anghywir.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Strydoedd ac amgylchedd glanach gyda llai o gyfle i losgi gwastraff yn fwriadol. Adrannau cynllunio awdurdod lleol ac adrannau rheoli adeiladu yn ymgynghori â'r adrannau rheoli gwastraff ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar geisiadau cynllunio.

Gweithredu

Lleihau'r cyfleoedd i gynnau tân yn fwriadol mewn safleoedd ac adeiladau gwag.

Sail Resymegol

Mae adeiladau a safleoedd heb fod wedi eu cloi a'u gwarchod yn ganolbwynt i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys cynnau tân yn fwriadol ac maent yn creu lefel uchel o risg i'n cymunedau a'r gwasanaethau brys. Yn aml maent mewn cyflwr gwael ac wedi eu fandaleiddio ac mae hyn yn arwain at effaith andwyol ar yr amgylchedd. Gall y problemau sydd ynghlwm wrth adeiladau fel hyn ddifetha bywydau'r gymuned leol a chael effaith drom ar adnoddau partneriaid allweddol.

Nodau

Sicrhau bod perchnogion safleoedd ac adeiladau gwag yn ein cymunedau yn cymryd cyfrifoldeb am ddiogelu, cynnal a chadw a monitro eu hasedau.

Sichrau bod safleoedd ac adeiladau yn cael eu cloi neu eu gwarchod cyn gynted â phosibl ar ôl eu darganfod, gan felly liniaru'r risg, a chael gwared ar y potensial i gynnau tân yn fwriadol ac i ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

Opsiynau Tactegol

- Sefydlu partneriaethau a phrotocolau priodol i ddelio â'r broblem.
- Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol i ddelio â'r safleoedd a'r adeiladau yma.
- Datblygu cysylltiadau gydag arwerthwyr a gwerthwyr tai er mwyn gallu cyfleu neges effeithol am ddiogelwch cymunedol wrth i eiddo gael ei werthu.
- Datblygu neges diogelwch cymunedol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i hysbysu'r gymuned fusnes yng Nghymru am ei chyfrifoldebau cyn ac ar ôl i adeilad busnes gael ei wacáu.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Bydd ein cymunedau'n gweld gwelliant yn eu hamgylchedd a lleihad mewn cynnau tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd gostyngiad dilynol mewn digwyddiadau yn gysylltiedig â'r safleoedd a'r adeiladau yma yn galluogi partneriaid allweddol i gyfeirio'u hadnoddau i lefydd eraill.

Gweithredu

Anelu at atal trosedd yn gynnar drwy ddylunio.

Sail Resymegol

Y ffordd orau o atal unrhyw drosedd yn cynnwys tanau bwriadol yw cynnwys nodweddion dylunio addas mewn datblygiadau newydd a rhai sy'n cael eu hadnewyddu, wrth iddynt gael eu cynllunio. Enghraifft syml o hyn fyddai dweud bod angen biniau wedi eu gwneud o ddeunydd nad yw'n llosgi, yn hytrach na deunydd llosgadwy. Os gwneir hyn yn gynnar yn y gwaith ni fydd y gost o weithredu'r argymhellion yma nac acw.

Nodau

Addysgu'r bobl berthnasol, sydd â rhan mewn dylunio a gwneud manylebau i adeiladau, o fanteision atal tanau bwriadol drwy ddylunio.

Dylai fod gan bob Heddlu "Swyddogion Cyswllt Pensaernïol", sy'n cael eu hyfforddi i roi cyngor am ddim yn y maes hwn.

Annog a hybu gwneuthurwyr eitemau sy'n gwrthsefyll tanau bwriadol.

Annog penseiri a chynllunwyr i gynnwys mesurau lleihau tanau bwriadol mewn adeiladau.

Gwneud yn siŵr bod yr agenda Diogelwch Tân yn edrych ar ddiogelu asedau yn ogystal â phobl.

Opsiynau Tactegol

- Ehangu cynllun Cymdeithas y Prif Gwnstabliaid, "Diogelu drwy Ddylunio" i fynd i'r afael yn benodol â thanau bwriadol.
- Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân i ystyried cynllun tebyg i "Diogelu drwy Ddylunio" i fynd i'r afael yn benodol â thanau bwriadol.
- Adrannau Cynllunio Awdurodau Lleol i gyflwyno cynlluniau i Swyddogion Tân a hyfforddwyd yn briodol i ymgynghori arnynt, neu anfon cynlluniau at Swyddogion Cyswllt Pensaernïol yr Heddlu i edrych arnynt, o safbwynt lleihau cyfleoedd i gynnau tanau'n fwriadol a chyfyngu ar effaith hyn.
- Cyngor a chanllaw ar 'sut i leihau cyfleoedd i gynnau tân yn yr amgylchedd adeiledig' i'w cynnwys yng nghyngor a chanllaw Cynllunio Llywodraeth y Cynulliad.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Byddai adeiladau newydd sy'n cwrdd â Safon Dylunio Cymru yn creu amgylchedd mwy diogel i bobl Cymru.

Gweithredu

Astudiaeth o ysgolion o safbwynt bod yn agored i danau bwriadol.

Sail Resymegol

Gall timau rheoli ysgolion helpu i atal tanau bwriadol yn eu hysgolion drwy asesu pa mor agored y mae eu safleoedd i ddigwyddiad o'r fath.

Nodau

Gwneud astudiaeth tanau bwriadol yn rhan hanfodol o ddyletswyddau tîm rheoli'r ysgol.

Opsiynau Tactegol

- Datblygu partneriaethau rhwng asiantaethau er mwyn helpu ysgolion i wneud astudiaethau agored i dân bwriadol. Grwpiau cyswllt ysgol i gysylltu ag Awdurdodau Addysg Lleol.
- Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth tanau bwriadol ar gyfer penaethiaid a gofalwyr.
- Cysylltu ag yswirwyr yr ysgol am gymorth a chyngor.
- Ystyried ehangu'r cynlluniau presennol:
  - Cynllun Gwylio Rhag Tân (Fire Watch)
  - Sgwad Diogelwch
  - Bît yr Ysgol
  - Rhaglen atal tân Gwylio Ysgol.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Timau rheoli ysgol yn gwneud astudiaethau o'u hysgolion i weld pa mor agored ydynt i danau bwriadol yn arwain at atal y posibilrwydd o danau bwriadol ar dir yr ysgol.

Gweithredu

Caledu targedau ysgolion.

Sail Resymegol

Mae'n ffurfio rhan o'r rhaglen rheoli risg mewn ysgolion.

Nodau

Arolygon atal trosedd aml-asiantaethol i'w cynnal o bob ysgol yng Nghymru.

Pob ysgol risg uchel i gael ei tharged galedu erbyn 2010.

Opsiynau Tactegol

- Timau Aml-Asiantaethol yn cynnal arolwg o'r problemau trosedd ac anhrefn sy'n benodol i'r safle a chysylltu ag AALlau a phenaethiaid.
- AALlau i hyfforddi staff ysgol, penaethiaid i adnabod a lleihau risgiau tanau bwriadol.
- Cysylltu ag yswirwyr yr ysgol i gael cymorth.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Gostyngiad mewn bwrgleriaeth, difrod troseddol, fandaliaeth a thanau bwriadol ar diroedd ysgol.

Gweithredu

Cael llywodraethwyr ysgol a chynghorau ysgol i gymryd rhan mewn camau i leihau trosedd ar safleoedd ysgol.

Sail Resymegol

Mae cynghorau ysgol yn gwneud cyfraniad positif i bob agwedd ar y gymuned ysgol ee strategaethau ar sut i leihau bwlio a fandaliaeth.

Mae gan gyrff llywodraethu ysgol gyfrifoldeb i gymryd rhan strategol mewn rhedeg yr ysgol.

Nodau

Cydweithrediad rhwng llywodraethwyr ysgol, cynghorau ysgol ac asiantaethau lleol i leihau fandaliaeth a thanau bwriadol ar dir yr ysgol.

Opsiynau Tactegol

- Cysylltu â Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol sydd i fod i gynnig gwybodaeth a chyngor i'r Corff Llywodraethu, yn arbennig ar faterion ynghylch y gyfraith a gweithdrefnau.
- Sefydlu pwyllgorau lleihau trosedd o fewn Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Chyngorau Ysgol (cyngor a chanllaw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Gostyngiad mewn bwrgleriaeth, difrod troseddol, fandaliaeth a thanau bwriadol ar diroedd ysgol.

Gweithredu

Ysgolion i gydymffurfio â Gorchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tân) (2005).

Sail Resymegol

Creu amgylchedd diogel i staff, disgyblion ac ymwelwyr â'r ysgol.

Nodau

Ysgolion i wneud eu hasesiadau risg eu hunain.

Opsiynau Tactegol

Dweud wrth ysgolion drwy bartneriaeth ag AALlau am eu dyletswydd i ofalu rhag tân yn gyffredinol a gwneud asesiadau risg.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Ysgolion yn cydymffurfio â'r Gorchymyn Diogelwch Tân ac asesiadau risg mewn lle ac yn cydymffurfio â rhagofalon tân cyffredinol.

Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mae'r adran hon yn ystyried:

Ymgysylltu ac Ymyrryd

Atal Troseddau Ieuenctid ac Aildroseddu

Addysg

Tynnwyd sylw at nifer o brosiectau ymyriad a gwrthdyniadol addawol i ieuenctid. Roedd y rhain yn cynnwys:

- *Phoenix & Dragon*
- *Fire Safe*
- Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc
- *Arson Rap*
- Ymweliadau rhyngweithiol â Gorsaf Dân
- Cwrs Rhieni Ifanc
- Addysg Plant mewn Ymwybyddiaeth Tân
- Unedau Diogel (Sgiliau bywyd)
- Taith ffordd *Impact* (canolbwyntio ar leihau damweiniau ond ychydig am danau bwriadol gyda cherbydau)
- Diwrnodau Trosedd Ceir.

Mae'r partneriaid yn y prosiectau yma yn cydnabod na chafodd y cyrsiau eu gwerthuso'n llawn, ond mae adroddiad ar y gweill i werthuso sawl un o'r prosiectau hyn.

Mae cyfathrebu a phartneriaeth yn ffactorau hanfodol i gyflawni ymgysylltiad.

Dylai fod yna ddigon o adnoddau o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub i sicrhau bod y cynlluniau a werthuswyd y gwelwyd eu bod yn enghreifftiau o arferion da yn cael eu prif-ffrydio, a bod cyfarfodydd cymheiriaid ar draws y gwasanaeth yn cael eu trefnu i sicrhau eu bod yn cael eu mabwysiadu ledled Cymru.

Ymgysylltu ac Ymyrryd

Gweithredu

Cael darlun clir o'r graddau y mae plant ac ieuenctid yn cymryd rhan mewn tanau bwriadol.

Sail Resymegol

Mae'r partneriaid allweddol yn cytuno bod mwyafrif helaeth plant a phobl ifanc yn arwain bywydau cadarnhaol a chynhyrchiol. Fodd bynnag, mae yna broblem oherwydd bod lleiafrif bychan o blant a phobl ifanc yn ymwneud â chynnau tân yn fwriadol. Nid oes darlun clir o faint y broblem yng Nghymru, a byddai hyn yn helpu'r partneriaid i gyd. Byddai angen i'r partneriaid sy'n cyfrannu at yr adroddiad rannu gwybodaeth mewn fformat cyffredin.

Nodau

Mae'r partneriaid i gyd yn cyfrannu at ymchwil i'r broblem tanau bwriadol, yn benodol i weld i ba raddau y mae gan blant a phobl ifanc ran yn hyn, ac unrhyw ffactorau demograffaidd perthnasol, yn ogystal ag ymchwil desg i'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem, yn cynnwys cael y plant a'r bobl ifanc eu hunain i gymryd rhan mewn datblygu atebion mewn ffyrdd positif.

Canfod asiantaeth addas i gydgaslu'r wybodaeth a chynhyrchu adroddiad.

Gwella'r rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid.

Opsiynau Tactegol

- Cynhyrchu adroddiadau dadansoddol o fewn partneriaethau.
- Arbenigwr allanol i gynhyrchu'r adroddiad.
- Prifysgol i benodi adran neu fyfyriwr i gynhyrchu'r adroddiad fel rhan o'u gofynion cwrs.
- Byddai protocolau partner ar y cyd, memorandwm cyd-ddealltwriaeth a'r adroddiad gwerthuso yn arwain at rannu gwybodaeth yn y dyfodol mewn fformat cyffredin.

- Defnyddio swyddogion ymchwil a gwybodaeth y Tîm Troseddu Ieuenctid i gynhyrchu adroddiad.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Bydd gan bob asiantaeth well dealltwriaeth o ran plant a phobl ifanc mewn cynnau tân bwriadol.

Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng partneriaid allweddol i helpu ymgysylltiad i oresgyn plant a phobl ifanc yn cynnau tanau'n fwriadol.

Bydd plant a phobl ifanc yn cael rhan ymarferol mewn mynd i'r afael â'r broblem o gynnau tân bwriadol.

Gweithredu

Partneriaid i ddefnyddio rhaglenni a werthuswyd, o fewn y cyd-destun lleol.

Sail Resymegol

Mae angen i bartneriaid allweddol allu cyflwyno rhaglenni gwrthdyniadol sydd wedi cael eu hadnabod fel arferion da, a'u gwerthuso i ddangos eu bod yn effeithiol ac wedi eu cymeradwyo i fodloni'r safonau gofynnol.

Mae'r cyd-destun lleol yn ystyried gwahanol batrymau gwaith staff mewn ardaloedd awdurdod unedol a strwythurau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyflwyno rhaglenni o'r fath.

Nodau

Cyfres o raglenni a werthuswyd ar gael i bartneriaid i ddewis modelau addas ohonynt i'w defnyddio'n lleol.

Opsiynau Tactegol

- Defnyddio model CDYA i wneud asesiad.
- Sefydlu cysylltiadau gydag Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn lleol i gael cefnogaeth i atal troseddu ieuenctid a chael prosiectau gwrthdyniadol o dan y Gronfa Cymunedau Mwy Diogel.
- Sefydlu cysylltiadau â Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru, y corff sy'n cynrychioli rheolwyr tîm troseddu ieuenctid yng Nghymru, i drafod rhoi cynlluniau atal trosedd a rhai gwrthdyniadol ar waith ar draws Cymru.
- Ffurfioli cysylltiadau â rhaglenni atal y Timau Troseddau Ieuenctid er mwyn manteisio ar gynlluniau a werthuswyd sy'n bod yn barod fel y Rhaglenni Cynnwys Ieuenctid.
- Cysylltu â Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr sy'n datblygu canllaw i gael y Gwasanaethau Tân ac Achub i gymryd rhan mewn rhaglenni atal.

- Defnyddio'r cyhoeddiad *'Gwerthuso Cynlluniau Ieuenctid y Gwasanaeth Tân ac Achub'* a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i wneud asesiad.
- Mae angen i bartneriaid ar draws Cymru rannu modelau arferion da a werthuswyd.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Bydd pob asiantaeth yn cyflwyno rhaglenni ymyriad neu wrthdyniad ieuenctid, sydd wedi cael eu gwerthuso, sy'n strwythurau hyblyg y gellir eu haddasu i gyd-destun lleol ac sy'n dangos canlyniadau mesuradwy.

Bydd arferion da ar gael i'w rhannu ar draws Cymru.

Gweithredu

Swyddi Atal/Ymgysylltiad Ieuenctid i'w strwythuro o fewn sefydliadau, hy ddim yn dymor byr (cyllid am 3 blynedd).

Sail Resymegol

Nododd partneriaid allweddol fod trefniadau cyllido tymor byr yn anaddas. Mae angen i raglenni Atal/Ymgysylltiad Ieuenctid gael eu prif ffrydio, hy dylai'r swyddi sydd eu hangen i wneud y gwaith fod yn rhan o drefn arferol un asiantaeth neu dylent gael eu cyllido mewn modd y gallai nifer o asiantaethau gyfrannu atynt.

Mae angen parhad mewn trefniadau staffio a chyllido er mwyn cyflwyno rhaglenni a werthuswyd.

Nodau

Yr holl raglenni i fod wedi eu staffio'n ddigonol a'u hariannu'n barhaus fel swyddi parhaol.

Opsiynau Tactegol

- Defnyddio'r Gwasanaethau Tân ac Achub i greu swyddi fel rhan o'u sefydliad.
- Defnyddio Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i gyllido'r swyddi hyd y gellir ei ragweld ar draws Cymru.
- Creu swyddi Partneriaeth o fewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol neu grwpiau o Bartneriaethau i gael swyddi wedi eu sefydlu.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Rhaglenni ymgysylltu a gwrthdynnu yn cael eu cyflwyno gan nifer digonol o staff ledled Cymru.

Gweithredu

Datblygu rhaglenni effeithiol a gynlluniwyd i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ymddwyn yn droseddol.

Sail Resymegol

Penderfynwyd ar y strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub yn y Fframwaith Cenedlaethol a'r canllaw a roddwyd i'r Awdurdodau Tân ac Achub ar leihau risg yn *'Cymru, Gwlad Ddiogelach'*. Mae'r Fframwaith yn datgan y cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y gall y Gwasanaeth Tân ac Achub wneud cyfraniad pwysig o safbwynt lleihau tanau bwriadol a hefyd o ran amcanion ehangach. Gall diffoddwyr tân ddangos patrwm ymddwyn cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub eisoes yn ymgymryd â gwaith amrywiol iawn gyda phobl ifanc drwy wahanol fentrau.

Nodau

Strategaethau ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i fod yn rhan o Gynllun Lleihau Risg yr Awdurdod Tân.

Opsiynau Tactegol

- Defnyddio'r broses gynllunio ffurfiol i gynnwys strategaeth flaengar i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.
- Cysylltu â Fforwm Atal Cymru sydd wrthi'n datblygu Strategaeth Atal Troseddu Ieuenctid Cymru Gyfan.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Bydd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru strategaeth bum mlynedd gydnabyddedig ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i weld gostyngiad effeithiol mewn risg tân a throseddau tân. Bydd hyn yn sicrhau rhagoriaeth mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc, yn arbennig y rheini mewn cymunedau difreintiedig, wedi ei gefnogi gan waith partneriaeth effeithiol ac ymyriad cynnar.

Atal Troseddau Ieuenctid ac Aildroseddu

Gweithredu

Staff y Gwasanaeth Tân ac Achub i eistedd ar baneli priodol plant a phobl ifanc sy'n ymdrin â gwaith cyn ac ar ôl llys yn y Timau Troseddau Ieuenctid (TTI).

Sail Resymegol

Nod y Paneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid (PCCI) a'r Paneli Gorchymyn Cyfeirio yw atal troseddau ac aildroseddu. Daw swyddogion tân ag arbenigedd gwerthfawr i'r

gwaith o lunio cynlluniau cefnogi addas i'r bobl sy'n rhan o'r prosesau yma o ganlyniad i droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thanau bwriadol.

Nodau

Staff tân ar lefel digon uchel i fod ar gael ym mhob ardal Awdurdod Lleol sydd â Phanel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid.

Staff tân yn cael eu secondio i bob TTI.

Opsiynau Tactegol

- Edrych ar y cysylltiadau â'r PCCI.
- Ehangu'r cyfleoedd secondiad i swyddogion tân yn y TTIau.
- Y Gwasanaethau Tân ac Achub yn manteisio ar gymhwyster ymarfer effeithiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sy'n agored i weithluoedd partneriaid sy'n cymryd rhan.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Bydd gan bob Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid gynrychiolydd o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn eistedd ar baneli sy'n delio ag achosion priodol.

Bydd gan bob TTI rywun wedi ei secondio o'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Addysg

Gweithredu

Sicrhau cysondeb yn y negeseuon a'r arferion addysgol ar draws pob gwasanaeth ac asiantaeth.

Sail Resymegol

Pob asiantaeth yn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn yr un neges am danau bwriadol gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu ac asiantaethau partner eraill.

Nodau

Plant a phobl ifanc yn derbyn gwybodaeth briodol am faterion yn ymwneud â thanau bwriadol.

Gwneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg draddodiadol yn ymgysylltu.

Cyflywno yn unol â'r rhaglen ysgolion Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod y y gynulleidfa ehangaf bosibl yn cael ei chyrraedd.

Opsiynau Tactegol

- Datblygu dull ar y cyd o gyflwyno addysg diogelwch cymunedol i bob Cyfnod Allweddol yn y cwricwlwm ysgol a'i gysylltu â Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol Cymru.
- *Staywise Cymru* - datblygiad arfaethedig o wefan gwasanaeth golau glas newydd i Gymru i'w defnyddio fel llwyfan cyfeirio ar gyfer pob asiantaeth fel y gallant gyflwyno neges gyson ar danau bwriadol.
- Datblygu achrediad cwricwlwm amgen mewn partneriaeth â'r gwasanaethau ieuenctid a chynhwysiant cymdeithasol.
- Datblygu safon genedlaethol ar gyfer gwerthuso pob rhaglen addysg.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Neges gyson gan bob partner allweddol i'r holl blant a phobl ifanc am danau bwriadol.

Gweithredu

Hybu mwy o gydweithrediad rhwng partneriaid allweddol i ddatblygu adnoddau a rhaglenni addysgol er mwyn addysgu plant a phobl ifanc am danau bwriadol.

Cael ESTYN (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) a phob Awdurdod Addysg Lleol/Yr Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg yng Nghymru i roi blaenoriaeth uwch i Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn y cwricwlwm ysgol.

Y sefyllfa bresennol yw mai'r ysgolion eu hunain sy'n dewis beth i'w gynnwys yn ABCh. Pan fo tanau bwriadol yn broblem, dylid annog ysgolion yn yr ardal i sicrhau bod neges atal tanau bwriadol yn cael ei chynnwys o fewn ABCh.

Sail Resymegol

Drwy gynnwys athrawon, AALlau, swyddogion gwella ysgol/ymgynghorwyr ABCh a Llywodraeth Cynulliad Cymru (yr Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg) mewn datblygu adnoddau a rhaglenni addysgol, bydd y gwaith a gynhyrchir yn gyfredol, yn gyson ac yn dderbyniol.

Nodau

Adnoddau addysgol i gael eu datblygu yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Rhoi statws uwch i ABCh mewn AALlau ac ysgolion.

Opsiynau Tactegol

- Cynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc er mwyn ystyried eu barn.
- Ymgynghori ag AALlau ynghylch arferion gorau o ran cyflwyno neges addysgol i blant ysgol am danau bwriadol.

- Ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rhoi rhagor o flaenoriaeth i ABCh yng nghwricwlwm ysgolion.
- Ymgynghori â'r gwasanaethau ieuenctid a chynhwysiant cymdeithasol er mwyn sicrhau bod addysg am danau bwriadol yn cael ei rhoi i'r rheini sydd wedi datgysylltu o addysg prif ffrwd.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Adnoddau diweddar sy'n cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion a diogelwch tân a thanau bwriadol yn cael eu cynnwys fel rhan o fframwaith ABCh.

Arolygiadau ESTYN i roi sylwadau ar addysg bersonol a chymdeithasol fel rhan o'u hasesiad o ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni a pha mor effeithiol y mae'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu mewn ysgolion.

Gweithredu

Grwpiau oedran - Dylid datblygu cynlluniau gan ddechrau gyda phlant rhwng 3 a 7 oed yn unol â fframwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgu plant yn y cyfnod sylfaen.

Sail Resymegol

Caiff rhaglenni ymyrryd eu hanelu at Gyfnod Allweddol 2 (plant 7 i 11) a Chyfnod Allweddol 4 (14 i 16 oed). Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o dan 7 oed eisoes wedi dechrau cael eu dylanwadu gan bwysau gan eu cyfoedion.

Ystyrir ei bod yn bwysig atgyfnerthu negeseuon diogelwch cymunedol gydol amser unigolyn yn yr ysgol.

Nodau

Dysgu ymddygiad cyfrifol i bobl ifanc o oedran cynnar.

Opsiynau Tactegol

- Y Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu a phartneriaid eriall i gynnwys y neges 'dim tanau bwriadol' i grwpiau oedran iau fel rhan o'u rhaglenni ysgol blynyddol.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Drwy dargedu oedran mor ifanc mae modd dylanwadu ar ymddygiad plant a thorri'r cylch o ymddygiad amhriodol o fewn eu cymunedau.

Diogelu'r Cyhoedd

Mae'r broses o asesu troseddwyr o ran risg, neu'r rheini sy'n debygol o droseddu, wedi hen sefydlu fel offeryn er mwyn helpu i reoli'r risg y gall y grwpiau yma o bobl ei chyflwyno i'r gymuned. O fewn y grwpiau a gaiff eu hasesu y mae'r grŵp a elwir yn "Droseddwyr Peryglus", sy'n cynnwys y rheini sydd ag ymddygiad cynnau tân.

Mae nifer y Troseddwyr Peryglus sydd â hanes o gynnau tanau bwriadol yn fach, ond gall rheoli'r nifer bychan hwnnw wella lefel diogelwch cymunedau yn ddirfawr.

O fewn yr adran hon o'r strategaeth dangosir sut y gall cymryd rhan â Threfniadau Aml-asiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), fod o gymorth i leihau'r risg.

Mae meysydd eraill sy'n dod o fewn yr adran hon yn cynnwys:

- Gweithio gyda throseddwyr yn y carchar a chyda'r rheini sy'n derbyn cosbau cymunedol.
- Canllaw ar gysylltu â 3 cainc y Strategaeth Troseddwyr Aml a Rhai Blaenoriaeth Eraill (Atal a Rhwystro, Dal a Chollfarnu ac Adfer ac Ailsefydlu) ar y lefel leol.
- Edrychir hefyd ar hyfforddiant cyffredin i'r rheini sy'n gweithio yn y byd Diogelwch Cymunedol, er mwyn amlygu'r manteision o gael dull cyffredin ar draws pob asiantaeth bartner.
- Adnabod a Blaenoriaethu ymosodiadau â chymhelliant hiliol iddynt.

Gweithredu

Y Gwasanaethau Tân ac Achub i gael eu cynnwys o fewn y Trefniadau Aml-Asiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) o safbwynt Troseddwyr Peryglus sydd â hanes o gynnau tanau'n fwriadol.

Sail Resymegol

Mae yna nifer bychan o droseddwyr peryglus sydd â hanes o gynnau tanau bwriadol. Bydd monitro'r rhain o dan system MAPPA yn cynyddu'r lefelau diogelwch i'r cyhoedd.

Nodau

Cael y Gwasanaethau Tân ac Achub ar draws Cymru i gymryd rhan ym mhroses MAPPA a arweinir gan y Gwasaneth Prawf yng Nghymru a Lloegr.

Opsiynau Tactegol

- Y Gwasanaeth Prawf i wneud yn siŵr fod y Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael eu cynnwys mewn materion MAPPA sy'n ymwneud â thanau bwriadol.
- Angen hyfforddi'r staff sydd â'r swyddogaethau hynny yn y Gwasanaeth Tân ac Achub o safbwynt proses MAPPA. Nhw ddylai fod yr un pwynt cyswllt yn y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Mae angen i staff gweithredol fod yn ymwybodol o ymyriadau a all fod yn briodol mewn perthynas â throseddwyr, dioddefwyr, eiddo a systemau ystafell reoli a gwybodaeth.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Bydd staff y Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu cymorthfeydd MAPPA o dan arweiniad y Gwasanaeth Prawf ar sail achos penodol, gan gynnig ymyriadau mewn perthynas â phobl ac eiddo fel sy'n briodol i'r risg.

Gweithredu

Lleihau aildroseddu gan y rheini a ryddheir o'r carchar (oedolion ac ieuenctid) sy'n dangos ymddygiad cynnau tanau.

Sail Resymegol

Mae yna bobl yn y ddalfa y gwyddys bod ganddynt dueddiadau cynnau tân, er nad ydynt bob amser wedi eu cael yn euog o Dân Bwriadol. Bydd gweithio gyda'r bobl yma yn lleihau'r risg o droseddu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar.

Nodau

Adnabod y rheini sy'n debygol o gynnau tanau bwriadol, drwy waith partneriaeth effeithiol rhwng yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Timau Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS).

Datblygu amrywiaeth o ymyriadau, o becynnau un i un i waith grŵp ar gyfer y garfan yma.

Opsiynau Tactegol

- Asesu anghenion y person a'r ymyriad effeithiol y dylid ei gynnig yn y carchar.
- Cyflawni drwy ddull aml-asiantaethol.
- Gwerthuso ac asesu a gwella'r rhaglenni er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn effeithiol o safbwynt atal aildroseddu.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

- Bydd troseddwr yn cael ymyriad tra'i fod yn y ddalfa sy'n addas i'w ymddygiad troseddol a'r risg y mae'n ei chyflwyno.
- Lle y bo'n briodol bydd hyn yn parhau wedi iddynt gael eu rhyddhau a bydd cysylltiadau'n cael eu gwneud ag asiantaethau eraill, gyda'r broblem yn cael ei hwynebu mewn modd cyfannol.

Gweithredu

Lleihau aildroseddu neu'r tebygrwydd o droseddu gan y rheini sydd mewn risg yn y gymuned.

Sail Resymegol

Rydym yn gwybod mai lleiafrif o droseddwyr sy'n gyfrifol am y mwyafrif o droseddau. Bydd adnabod y rheini sydd mewn risg o droseddu neu a gollfarnwyd, gan y partneriaid i gyd a rhoi ymyriadau penodol iddynt yn lleihau nifer y tanau bwriadol.

Nodau

Adnabod y rheini sydd mewn risg o droseddu neu sydd wedi troseddu drwy weithio mewn partneriaeth.

Sefydlu systemau cyfeirio i bob asiantaeth bartner fel y gellir cyfeirio'r rhai a adnabuwyd at raglenni.

Opsiynau Tactegol

- Sefydlu, gwerthuso a datblygu rhaglenni i'r troseddwyr yma neu droseddwyr posibl.
- Cysylltu'n effeithiol â Chynlluniau Blaenoriaeth a Throseddwyr Aml lleol sy'n delio â throseddwyr, yn oedolion ac ieuenctid.
- Sicrhau bod y rheini sy'n debygol o droseddu neu aildroseddu yn cael eu cyfeirio at raglenni.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Bydd yna amrywiaeth o raglenni i fynd i'r afael â'r materion sy'n deillio o ymddygiad troseddol.

Bydd y rhaglenni yma'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio dull aml-asiantaethol, a'u cysylltu â gwaith sy'n mynd rhagddo gyda'r Gwasanaeth Prawf neu'r Tîm Troseddu Ieuenctid, i ffurfio pecyn integredig.

Bydd y rheini sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu yn derbyn ymyriad amserol ac effeithiol.

Gweithredu

Dylid cydlynu ymgyrchoedd gan y cyfryngau ar draws Cymru i gyflwyno negeseuon effeithol ac amserol er mwyn atal tanau bwriadol neu gynyddu'r nifer sy'n cael eu darganfod.

Sail Resymegol

Mae cyhoeddusrwydd drwy wahanol gyfryngau a digwyddiadau cyhoeddus yn rhywbeth y mae pob un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cymryd rhan ynddo. Dylai gyflwyno neges gyson ar hyd a lled Cymru.

Nodau

Cronfa o lenyddiaeth ddwyieithog yn cael ei chadw mewn man canolog i fod ar gael ledled Cymru.

Dylai negeseuon cenedlaethol, fel y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartref a Thanau Cefn Gwlad, fod yn gyson a dylent gyrraedd pob rhan o Gymru, drwy ddefnyddio'r cyfryngau priodol.

Opsiynau Tactegol

- Atal Tân (Firebrake) i barhau â'i rôl bresennol a'i ehangu i fod yn llyfrgell o daflenni a hefyd DVDs yn ymwneud â diogelwch tân.
- Gellid datblygu nwyddau dwyieithog, yn arbennig DVDs i'w dosbarthu drwy Gymru. Byddai hyn yn fwy cost-effeithlon na phob ardal yn datblygu eu rhai eu hunain, a byddai'r nwyddau yn fwy proffesiynol eu golwg.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Ymarferwyr yn gallu cael gwybodaeth, sy'n berthnasol i'w problem nhw, yn hawdd.

Llyfrgell o wybodaeth ar gael i helpu i addysgu grwpiau cymunedol.

Pobl Cymru yn cael gwybod am faterion diogelwch, a hynny ym mhob grŵp o'r boblogaeth honno.

Gweithredu

Codi ymwybyddiaeth y rheini sy'n gweithio yn y System Cyfiawnder Troseddol o'r rhaglenni ymyrryd y gall y Gwasanaethau Tân ac Achub eu darparu.

Sail Resymegol

Cyflwyno elfen o orfodaeth i raglen ymyrryd a gwella'r broses gyfeirio i'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Nodau

Dylai'r rheini sy'n paratoi adroddiadau i'r Llysoedd yn y Gwasanaeth Prawf a'r Timau Troseddu Ieuenctid ymgynghori â'u Swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub cyfrifol lleol er mwyn gwneud yn siŵr bod rhaglen addas ar gael i'r troseddwr, os yw hynny'n briodol.

Opsiynau Tactegol

- Anfon staff y Gwasanaeth Tân ac Achub i'r Gwasanaethau Prawf a'r Timau Troseddu Ieuenctid i roi gwybod am y rhaglenni.
- Y Gwasanaethau Tân ac Achub i wneud yn siŵr fod ganddynt gysylltiadau effeithiol rhwng y system lysoedd a'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Wrth ddedfrydu, byddai cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at raglen berthnasol. Byddai'r rhaglen yn cael ei chyflwyno ar sail aml-asiantaethol. Byddai unigolion yn llai tebygol o aildroseddu.

Gweithredu

Dylid Cynyddu Gwybodaeth y Cyhoedd am Fesurau Atal y Gwasanaeth Tân ac Achub i gynnwys pob rhan o'r Gymuned.

Sail Resymegol

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn darparu nifer o ymyriadau, fel Gwiriadau Diogelwch Tanau Cartref, a all fod yn effeithiol o safbwynt lleihau nifer y tanau bwriadol. Dylai'r mesurau yma fod yn rhan annatod o ymyriadau Diogelwch Cymunedol. Dylai pob un o'r cymunedau ac asiantaethau sy'n gweithio o fewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wybod am yr ymyriadau sydd ar gael.

Nodau

Strategaethau'n cael eu datblygu i gyrraedd grwpiau agored i niwed yn cynnwys dioddefwyr iechyd meddwl a rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, rhieni sengl, rhieni ifanc, pobl yn byw ar eu pennau eu hunain ac yn y blaen. Byddai'r grwpiau yma'n cael eu diogelu'n well rhag tanau bwriadol.

Cysondeb ar draws Cymru o ran y gwasanaethau a ddarperir a sut y gellir mynd atynt, er mwyn lleihau'r cyfle i gynnau tân bwriadol.

Opsiynau Tactegol

- Agwedd gyffredin at Atal Trosedd a hyfforddiant cyffredin fel y Cwrs Lleihau Trosedd Safonol, ar draws yr asiantaethau i gyd yn cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu.

- Hyfforddiant diogelwch tân yn cael ei roi i'r Heddlu gan Staff Tân ac Achub, i leihau'r cyfle i gynnau tanau bwriadol.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Agwedd gyffredin at ddiogelwch cymunedol gan y partneriaid i gyd, heb unrhyw wrth-ddweud yn y cyngor a roddir.

Effaith tanau bwriadol yn cael ei lleihau neu ei hatal yn llwyr drwy ddarparu cyngor atal penodol i'r safle.

Mwy o ymwybyddiaeth cyhoeddus am danau bwriadol a gwybodaeth am le y gellir cael cyngor safonol a chyson ar draws Cymru.

Gweithredu

Adnabod Tanau Bwriadol â Chymhelliant Hiliol yn Sail Iddynt.

Sail Resymegol

Ei gwneud hi'n bosibl i ddelio'n briodol â'r troseddau hynny a symbylwyd gan faterion yn ymwneud â hiliaeth.

Nodau

Adnabod y digwyddiadau a symbylwyd gan hiliaeth.

Defnyddio gwybodaeth arbenigol a blaenoriaethu'r materion yma o fewn asiantaethau partner.

Atal troseddau casineb a digwyddiadau cysylltiedig.

Opsiynau Tactegol

- Hyfforddiant ar y cyd rhwng Swyddogion Troseddau Hiliol yr Heddlu a staff y Gwasanaeth Tân ac Achub fel y gellir adnabod y tanau hynny a symbylwyd gan ragfarn.
- Hyfforddiant hiliaeth ac amrywiaeth i staff y Gwasanaeth Tân ac Achub fel eu bod yn gallu adnabod digwyddiadau o'r fath a deall eu heffeithiau.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Pan fydd digwyddiad hiliol yn cael ei ganfod, rhoddir blaenoriaeth iddo a delir ag ef mewn ffordd brydlon ac effeithiol.

Ni fydd digwyddiadau'n cael eu hailadrodd.

Taenellwyr

Lleihau cost tanau bwriadol a diogelu adeiladau cyhoeddus.

***Noder** … Trafodwyd manteision gosod taenellwyr mewn perthynas â thanau bwriadol yn fanwl yn ystod y Gweithdai Rhanddeiliaid. Roedd y trafodaethau'n cynnwys y materion oedd ynghlwm wrth daenellwyr yng nghyd-destun strategaeth diogelwch cymunedol ehangach; nid lleihau tanau bwriadol yn unig. Ni fydd yr holl wybodaeth a chyngor a gasglwyd yn ystod y gweithdai strategaeth lleihau tanau bwriadol yn cael eu colli ond cânt eu defnyddio wrth ffurfio'r strategaeth arfaethedig ar ddiogelwch cymunedol ehangach.

Trosolwg

Gwnaeth adroddiad 'Up in Flames' Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) argymhellion ar gyfer lleihau tanau bwriadol a thaenellwyr.

Er bod cryn dipyn o waith wedi ei wneud o safbwynt Diogelwch Tân Cymunedol, araf fu'r cynnydd o ran gosod systemau taenellu. Dyma'r prif resymau:

- Mae cost yn ffactor fawr heb gymelliannau amlwg i osod taenellwyr.
- Diogelu bywyd yw prif nod diogelwch tân. Eilbeth yw cynllunio adeiladau sy'n diogelu eiddo a'r gost economaidd a chymdeithasol i gymdeithas.
- Mae'n rhaid i systemau taenellu gydymffurfio â Safonau Prydeinig a'r trefniadau pibellu presennol ac mae'n rhaid i elfennau eraill o'r system gydymffurfio â'r technegau adeiladu cyfredol.
- Mae anawsterau technegol gyda'r cyflenwad dŵr yng Nghymru i gwrdd â Safonau Prydeinig yn codi'r costau yn sylweddol.

Gweithredu

Cynyddu'r defnydd o daenellwyr mewn ysgolion gan felly leihau cost tanau ysgol i gymdeithas.

Sail Resymegol

Er gwaethaf cost tanau ysgol yng Nghymru a'r costau cymdeithasol cysylltiedig i athrawon, plant a'r gymuned leol, ychydig iawn o daenellwyr a brynwyd ar gyfer ysgolion newydd a rhai a adnewyddwyd. Dylid edrych ar gamau i gynyddu'r defnydd o daenellwyr mewn ysgolion gan gyflwyno cymelliannau i annog eu defnydd.

Nodau

Lleihau'r gost economaidd i Gymru sy'n deillio o danau ysgol.

Diogelu a gwarchod 'ysgolion fel asedau' yng Nghymru.

Sicrhau y gall pob plentyn gael ei addysg yn ei ddewis ysgol drwy leihau'r posibilrwydd y bydd yn rhaid iddo/iddi symud yn sgil tanau bwriadol.

Gwarchod ysgolion lleol fel cyfleuster i'r gymuned.

Opsiynau Tactegol

- Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried sut y gall rhaglenni grant presennol gael eu defnyddio er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth o daenellwyr mewn ysgolion.
- Ystyried sut i gynyddu cymhellion o safbwynt yswiriant.
- Deddfwriaeth gynllunio i gynnwys canllaw ar ddiogelwch tân (yn cynnwys taenellwyr) mewn ysgolion.
- Cytuno a mabwysiadu polisi ffurfiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Bydd pob gwaith newydd ar ysgolion yn ogystal ag adnewyddu ysgolion presennol Cymru yn cynnwys gosod systemau taenellu.

Gweithredu

Lleihau'r gost i gymdeithas sy'n deillio o danau mewn adeiladau cyhoeddus.

Sail Resymegol

Er gwaethaf cost tanau mewn adeiladau cyhoeddus yng Nghymru a'r costau cymdeithasol cysylltiedig i gymdeithas, prin iawn fu'r taenellwyr a osodwyd mewn adeiladau cyhoeddus newydd a rhai a adnewyddwyd.

Dylid edrych ar gamau i gynyddu'r defnydd o daenellwyr mewn adeiladau cyhoeddus a chyflwyno cymelliannau i annog eu defnyddio.

Nodau

Sicrhau bod ein cymunedau i gyd yn cael y defnydd llawn o amwynderau cyhoeddus gan leihau'r perygl y bydd yn rhaid iddynt gael eu hail-godi neu eu cau oherwydd tanau bwriadol.

Sicrhau nad yw cymunedau lleol yn cael eu hamddifadu o'u canolbwyntiau yn y gymuned drwy golled ddifrifol gan dân.

Lleihau'r gost economaidd i Gymru o danau mewn adeiladau cyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys pob un o'r adeiladau sydd o dan reolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddylai osod esiampl i gyrff cyhoeddus eraill. Yr adeiladau cyhoeddus i gynnwys rhai'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Awdurdodau Lleol, y GIG, a chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus, yn ogystal ag unrhyw adeiladau Menter Cyllid Preifat sydd yn eu meddiant.

Opsiynau Tactegol

- Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried sut y gall rhaglenni grant presennol gael eu defnyddio er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth o daenellwyr mewn ysgolion.
- Ystyried sut i godi cymhellion o safbwynt yswiriant.
- Deddfwriaeth gynllunio i gynnwys canllaw ar ddiogelwch tân (yn cynnwys taenellwyr) mewn adeiladau cyhoeddus.

Beth a olygir wrth Lwyddiant

Pob adeilad newydd a'r rhai a adnewyddwyd yng Nghymru wedi eu gosod â systemau taenellu.

Atodiad A

‘Up in Flames’... Argymhellion/ Hynt y Gwaith

(Yn seiliedig ar Bapur i’r Pwyllgor Diogelwch Tân, Chwefror 2006 P Coleman)

1. Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru a’r Grŵp Cydlynu

(i) Dylid rhoi’r dasg o ddatblygu a goruchwylio’r Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru i’r Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (y Cyd-Grŵp).

Hynt y gwaith;
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu’r argymhelliad hwn yn llawn.

2. Systemau Taenellu mewn Ysgolion Newydd

(i) Angen cyfuno’r agwedd hon ar systemau taenellu mewn ysgolion â’r argymhellion cysylltiedig hynny a ddeilliodd o’r Adroddiad Wired for Safety (cyfeirier at hyn yn eitemau 10 ac 13).

(ii) Angen trafodaeth bellach gydag Adran Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch ffurfioli trefniadu polisi yn y dyfodol i Gymru.

Hynt y gwaith;
Mae sawl Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu polisi o osod taenellwyr mewn ysgolion newydd.

3. + 6. Adnabod a Diogelu’r ysgolion mwyaf agored i niwed

(i) Yr Awdurdodau Tân ac Achub, os yn bosibl mewn cysylltiad ag AALlau, i adnabod yr ysgolion sydd â’r perygl mwyaf o gael tanau bwriadol.

Hynt y gwaith;
Mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub wedi adnabod ysgolion yn ei ardal sy’n agored i risg tanau bwriadol.

(ii) Arolygon Atal Trosedd i’w cynnal o’r ysgolion mewn perygl mwyaf er mwyn canfod gwendidau ac argymell mesurau i leihau’r risg o danau bwriadol.

Hynt y gwaith;
Mae’r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi cychwyn rhaglen o fynd i’r afael â’r problemau yn yr ysgolion sydd fwyaf mewn perygl.

(iii) Dylid ystyried sut y mae ariannu gweithredu'r argymhellion a nodir mewn arolygon o'r fath.

Hynt y gwaith;
Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub ac Asiantaethau Partner yn tynnu cyllid i lawr o'r Rhaglen Grantiau Bychain Tanau Bwriadol er mwyn mynd i'r afael â materion diogelwch a chaledu targedau a ganfuwyd drwy asesiad.

(iv) Trafod gydag Adran Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru yr angen i gynnwys nodweddion dylunio diogelwch ym mhob ysgol a adeiledir o'r newydd.

Hynt y gwaith;
Yn mynd rhagddo ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3. Casglu a Rhannu Data

(i) Nodwyd hyn hefyd yn *Wired for Safety* (Argymhelliad 9) a dylid cyfuno'r ddwy agwedd i'w hystyried ymhellach yn y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Tân ac Achub. Mae angen pwyslais arbennig ar gael eglurder a chysondeb dull ar sail cenedlaethol gydag asiantaethau a grwpiau eraill, fel yr heddlu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Hynt y gwaith;
Gwnaed rhywfaint o gynnydd ond mae angen mwy o waith yn y maes hwn.

5. Ehangder y Broblem Tanau Bwriadol

(i) Mae angen ymchwil pellach i weld beth yw ehangder y broblem tanau bwriadol yng Nghymru, a hwnnw'n cael ei oruchwylio gan y Grŵp a enwebwyd i gydlynu a datblygu'r strategaeth lleihau tanau bwriadol, gan ei fod yn rhan annatod o'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer lleihau tanau bwriadol.

Hynt y gwaith;
Mae'r ymchwil a'r ymgynghoriad a drefnwyd i ffurfioli'r ddogfen hon wedi mynd i'r afael â'r mater yn rhannol.

6. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Lleihau Tanau Bwriadol

(i) Ystyrir ei bod yn well gadael y mater hwn i Awdurdodau Tân ac Achub i benderfynu i ba raddau y mae lleihau tanau bwriadol yn cael ei amlygu fel blaenoriaeth yng nghynlluniau strategol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol unigol. Mae'r berthynas waith rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub a'r Partneriaethau wedi datblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a gwneir ymdrechion i ehangu ymhellach agenda'r Partneriaethau i edrych ar ddiogelwch cymunedol yn hytrach na throseddau yn unig.

Hynt y gwaith;
Yn mynd rhagddo ar sail Rheolaeth/Adran Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

8. Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Gogledd)

Wedi ei gwblhau, ond yn deall bod y ddau grŵp rhanbarthol yn gael eu cyfuno yn un ar gyfer Cymru gyfan.

Hynt y gwaith;
Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol Cymru wedi ei ffurfio ac yn weithredol.

9. Cerbydau a Adawyd - Deddfwriaeth

Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.

10+11 Cynlluniau Tanau Bwriadol Cerbydau

(i) Eisoes wedi eu nodi fel arfer da drwy gynlluniau arloesol a ariannwyd gan y Fforwm Rheoli Tanau Bwriadol yn Lloegr. Ategwyd hyn gan dystiolaeth o Gymru dros y 7 mlynedd diwethaf.

(ii) Mae tanau bwriadol, a llosgi ceir yn arbennig, fel arfer wedi ei gyfyngu i'r ardaloedd mwy trefol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn tynnu oddi ar lwyddiant y cynlluniau lleihau tanau bwriadol cerbydau a weithredwyd yng Nghymru hyd yma. Mae hwn yn brawf o arferion da a dylid ei ehangu i ardaloedd eraill lle y gwyddys bod problemau cyffelyb fel y bo angen.

(iii) Os oes modd, argymhellir bod y cynlluniau lleihau tanau bwriadol a'r cynlluniau warden tanau bwriadol busnes presennol yn parhau tan ddiwedd 2007 o leiaf ochr yn ochr â'r Timau Lleihau Tanau Bwriadol; dylid eu gwerthuso fel cyfanrwydd ac argymell y ffordd orau ymlaen.

Hynt y gwaith;
Cynllun Wardeniaid Tanau Bwriadol Busnes a'r Cynllun Lleihau Tanau Bwriadol Cerbydau (M&WWFRS) yn cael eu hariannu tan fis Rhagfyr 2007 ochr yn ochr â'r Timau Lleihau Tanau Bwriadol.

12. Cynlluniau Ieuenctid a Lleihau Tanau Bwriadol

(i) Mae angen gwerthuso'r holl waith ieuenctid arloesol sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd, er mwyn adnabod ac ehangu arferion da.

Hynt y gwaith;
Gwerthuso Cynlluniau Ieuenctid y Gwasanaeth Tân ac Achub a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. I adrodd yn ôl ym mis Mai 2007.

(ii) Parhau i gefnogi drwy'r Rhaglen Grantiau Bychain Tanau Bwriadol, ond efallai ystyried elfen ar wahân ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag ieuenctid. Cael adborth o'r Rhaglen er mwyn helpu i adnabod arferion da.

Hynt y gwaith;
Yn mynd rhagddo ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru.

13. Cyhoeddusrwydd a Chodi Ymwybyddiaeth

(i) Cyfuno ag Argymhellion 7 ac 8 *Wired for Safety* a'u cynnwys yng ngwaith y Pwyllgor Llywio Cyhoeddusrwydd arfaethedig.

Hynt y gwaith;
Pwyllgor rheoli 'Fflach Tân' wedi ei ffurfio … yn mynd rhagddo.

14. Tîm Lleihau Tanau Bwriadol

(i) Eisoes wedi ei adnabod fel arfer da drwy gynlluniau arloesol a ariannwyd gan y Fforwm Rheoli Tanau Bwriadol yn Lloegr. Caiff hwn ei ategu gan dystiolaeth oddrychol gynnar o'r gwaith a wneir gan y tri thîm yng Nghymru.

(ii) Disgwyl gwerthusiad llawn tua diwedd y cynllun ym mis Rhagfyr 2007 i lywio penderfyniadau am gynlluniau o'r fath yn y dyfodol.

Hynt y gwaith … Yn mynd rhagddo.

15. Y Gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol

(i) Cefnogir parhau â'r gyllideb hon o ystyried ei chyfraniad sylweddol i helpu cynlluniau arloesol ac arfer da i leihau tanau bwriadol a gwella diogelwch cymunedol.

Hynt y gwaith … Yn mynd rhagddo.

Atodiad B

Enw	Sefydliad
Linda Roberts	Cydlynydd Heddlu Ysgolion Cymru Gyfan
Steve Rees	Heddlu De Cymru
Julie Harper	Atal Tân Cymru
Steve Trigg	Heddlu De Cymru
Dee Ford	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Kathryn Treherne	Tîm Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili
Jaci Raukmove	Tîm Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili
Peter Cloke	Y Comisiwn Coedwigaeth
Zoe Lavender	Tîm Troseddau Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot
Melfyn Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Stuart Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Mark Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Victoria Burrows	Heddlu Gogledd Cymru
Andrew Piggott	Heddlu Gogledd Cymru
Diana Harris	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Roshnara Ali	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
John FitzJohn	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Bob John	Heddlu Dyfed Powys
Ceri Davies	Rhaglen Cynhwysiant Ieuenctid Merthyr Tudful
Bethan Gill	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Nick Dodd	Tîm Lleihau Tanau Bwriadol Bae Abertawe
Neil O' Connell	Heddlu Gwent
Alex Chadd	Heddlu De Cymru
Frances Williams	Heddlu De Cymru
Amanda Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Jack Evans	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Philip Harding	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Larry Stokes	Zurich Municipal Insurance
Simon Morgan	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Mark Bonnett	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Steve Bryant	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Scourfield	Heddlu De Cymru
Ian Guildford	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Madog Williams	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Terry Edwards	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Eifion Rees	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Dean Jones	Tîm Lleihau Tanau Bwriadol ELY
Paul Briscombe	Tîm Lleihau Tanau Bwriadol ELY
Delfryn Thomas	Tîm Lleihau Tanau Bwriadol Bae Abertawe
Gemma Thomas	Tîm Lleihau Tanau Bwriadol Bae Abertawe
Jenny Davey	Warden Lleihau Tanau Bwriadol Busnes Bae Abertawe
Ryland Williams	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Tanau Bwriadol Cerbydau
Stefan Doerr	Prifysgol Abertawe
Richard Morgan	Tîm Trosedd y Swyddfa Gartref
Geoff Bosley	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Nick Keating	Llywodraeth Cynulliad Cymru
David Sandbrook	Cyngor Dinas Caerdydd, Rheoli Gwastraff
Kevin Barry	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Sheila Hill	Cynghorydd y Swyddfa Gartref
Stephen Hughes	Dadansoddwr Partneriaeth Heddlu Gogledd Cymru
Melanie Lawton	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
David Charrett	Asiantaeth yr Amgylchedd
Dylan Collins	Rhannu Gwybodaeth Gwent

Atodiad C

Cost Economaidd Tanau Bwriadol

Nifer y Tanau Bwriadol fesul Awdurdod Unedol

Costau Tanau Bwriadol fesul Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub

Costau Tanau Bwriadol i Gymru

Costau penodol tanau glaswellt a choedwig

Ystadegau Tanau Bwriadol Fesul Awdurdod Unedol

Ardal	Cartref			Addysg			Cerbydau			FDR1 Arall			FDR3			Cyfanswm		
	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07
Blaenau Gwent	16	11	6	1	0	0	80	95	109	37	21	25	571	526	687	705	653	827
Pen-y-bont ar Ogwr	14	16	11	1	2	0	161	185	135	79	30	47	711	617	779	966	850	972
Caerfili	15	17	21	2	1	0	365	332	248	82	62	81	1223	1164	1323	1687	1576	1673
Caerdydd	78	58	65	3	2	2	507	454	419	126	123	104	1695	1480	1790	2409	2117	2380
Sir Gaerfyrddin	10	8	17	1	1	2	47	49	60	43	29	40	245	265	231	346	352	350
Ceredigion	5	2	2	2	1	2	14	9	14	9	13	14	18	26	19	48	51	51
Conwy	8	9	13	1	1	1	38	38	36	73	30	36	241	221	297	361	299	383
Sir Ddinbych	6	11	8	1	10	3	86	58	60	124	49	35	276	257	225	493	385	331
Sir y Fflint	8	11	14	2	2	4	98	52	74	145	39	36	294	271	267	547	375	395
Gwynedd	6	8	3	1	3	3	42	46	34	65	40	44	231	289	292	345	386	376
Merthyr Tudful	28	11	14	2	2	0	193	145	164	58	21	28	738	603	755	1019	782	961
Sir Fynwy	5	5	4	2	2	1	41	38	33	40	21	20	185	150	155	273	216	213
Castell-nedd Port Talbot	20	20	16	2	5	2	275	246	223	84	66	93	1187	882	1173	1568	1219	1507
Casnewydd	30	34	42	5	6	1	261	173	140	98	67	75	1125	1150	1057	1519	1430	1315
Sir Benfro	7	7	10	2	3	1	14	23	26	31	31	25	171	136	165	225	200	227
Powys	10	10	2	3	0	2	36	12	23	20	12	28	125	143	121	194	177	176
Rhondda Cynon Taf	31	26	35	1	4	1	417	335	323	133	97	102	2110	1792	2178	2692	2254	2639
Abertawe	36	38	38	7	7	7	456	439	315	81	58	64	1750	1590	1794	2330	2132	2218
Tor-faen	7	7	19	0	0	3	117	131	82	55	39	50	621	715	825	800	892	979
Bro Morgannwg	20	12	16	0	1	1	98	94	78	60	39	35	378	296	408	556	442	538
Wrecsam	26	33	21	0	2	0	131	136	202	163	50	51	467	383	436	787	604	710
Ynys Môn	6	5	5	0	0	1	34	20	30	59	13	12	255	218	163	354	256	211
Cyfansymiau	392	359	382	39	55	37	3511	3110	2828	1665	950	1045	14617	13174	15140	20224	17648	19432

Ardal Gwasaneth Tân ac Achub Gogledd Cymru

	Cartref			Addysg			Cerbydau			FDR1 Arall			FDR3		
	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07
	60	77	64	5	18	12	429	350	436	629	221	214	1764	1639	1680
Cost mewn Miliynau	£1.0	£1.7	£1.4	£0.2	£0.6	£0.4	£1.7	£1.6	£2.0	£1.2	£0.8	£0.8	£2.9	£3.2	£3.3



Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

	Cartref			Addysg			Cerbyd			FDR1 Arall			FDR3		
	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07
	244	197	233	17	20	9	2240	1982	1731	768	520	567	9357	8493	9957
Cost mewn Miliynau	£4.8	£4.3	£5.1	£0.8	£0.7	£0.3	£10.8	£9.2	£8.1	£4.8	£1.9	£2.1	£15.4	£16.7	£19.6



Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

	Cartref			Addysg			Cerbyd			FDR1 Arall			FDR3		
	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07	04/05	05/06	06/07
	88	85	85	17	17	16	843	776	661	268	209	264	3496	3045	3503
Cost mewn Miliynau	£1.9	£1.8	£1.8	£0.6	£0.5	£0.5	£3.9	£3.6	£3.0	£1.0	£0.8	£1.0	£6.8	£5.9	£6.9



Costau Tanau Bwriadol i Gymru (mewn £1M)

	Cartref				Addysg				Cerbyd				FDR1 Arall				FDR3			
	03/04	04/05	05/06	06/07	03/04	04/05	05/06	06/07	03/04	04/05	05/06	06/07	03/04	04/05	05/06	06/07	03/04	04/05	05/06	06/07
GTA De Cymru	5.3	4.8	4.3	5.1	1.4	0.8	0.7	0.3	14.4	10.8	9.2	8.1	4.9	4.8	1.9	2.1	23.7	15.4	16.7	19.6
GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru	2.1	1.9	1.8	1.8	0.4	0.6	0.5	0.5	5.8	3.9	3.6	3.0	2.2	1.0	0.8	1.0	7.4	6.8	5.9	6.9
GTA Gogledd Cymru	1.8	1.0	1.7	1.4	0.4	0.2	0.6	0.4	2.8	1.7	1.6	2.0	1.9	1.2	0.8	0.8	4.6	2.9	3.2	3.3
Cyfanswm Cymru fesul math digwyddiad	9.2	7.7	7.8	8.3	2.2	1.6	1.8	1.2	23.0	16.3	14.4	13.1	9.0	7.0	3.5	3.9	35.7	25.1	25.8	29.8

Costau Tanau Bwriadol i Gymru	
2003/04	£79.1 M
2004/05	£57.7 M
2005/06	£53.3 M
2006/07	£56.3 M

DS Dylid nodi bod y ddogfen 'The Economic Cost of Fire' yn pennu cost gyfartalog o £34,460 ar gyfer pob digwyddiad FDR1 mewn sefydliad addysg. Nid yw hyn yn adlewyrchu'n gywir y golled faterol sylweddol ac, yn achlysurol, ddigwyddiadau trychinebus pan gollir yr ysgol gyfan.

Tanau Glaswellt a Choedwig yng Nghymru (Wedi'u cymryd o ffigurau FDR3)

	2004-2005	2005-2006	2006-2007
	Glaswellt a Choedwig	Glaswellt a Choedwig	Glaswellt a Choedwig
Gogledd Cymru	683	597	720
Canolbarth a Gorllewin Cymru	1541	1404	1914
De Cymru	3651	3256	4572
CYMRU	**5917**	**5272**	**7238**
*Y Gost i Gymdeithas Yng Nghymru	£11.7M	£10.4M	£14.6M

* Yn seiliedig ar Gyhoeddiad y Swyddfa Gartref, *The Economic Cost of Fire* £1970 pob digwyddiad. Nid yw'r ffigur hwn yn adlewyrchu'n gywir y tanau mawr mewn coedwigoedd sy'n cynnwys y defnydd o sawl peiriant pwmpio, llawer iawn o bersonél ynghyd â gwasanaethau brys a chymorth lleol.

Termau

CDYA	Craffu, Dadansoddi, Ymateb ac Asesu
TTI	Tîm Troseddau Ieuenctid
PDC	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
GTA	Gwasanaeth Tân ac Achub
ABCh	Addyg Bersonol a Chymdeithasol
MAPPA	Trefniadau Aml-asiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd